**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**ARIANNU GWASANAETHAU GOFAL A THRWSIO YNG NGHYMRU**

**Bwriad**

1. I nodi a thrafod argymhellion y Cynulliad ar gyfer cynyddu'r arian a ddarperir i'r gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, gan ddechrau ym mlwyddyn ariannol 2003-04.

**Crynodeb**

2. Bwriad yr argymhellion yw i roi sylfaen ariannol mwy diogel a thecach i Gofal a Thrwsio Cymru a'r 26 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Golyga hyn y gall y mudiad cyfan adeiladu ar y gwaith da yn mae eisoes wedi ei gyflawni yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r henoed a phobl anabl yng Nghymru trwy alluogi iddynt aros yn annibynnol yn eu cartrefi.

**Amseru**

3. Gan fod y trefniadau arfaethedig i gynyddu'r arian a ddarperir wedi eu cadarnhau yn setliad cyllid y Cynulliad, mae'n amser da i'r Pwyllgor drafod yr argymhellion.

**Cefndir**

4. Cytunodd y Gweinidog yn ôl ym mis Ebrill eleni i sefydlu gweithgor i edrych ar ariannu Gofal a Thrwsio Cymru. Ceir manylion am aelodaeth y grwp, oedd â chynrychiolaeth eang, yn Atodiad 1.

5. Cyfarfu'r grwp ar 3 achlysur ym mis Mai-Gorffennaf a thrafodwyd pedwar opsiwn ar gyfer ariannu Gofal a Thrwsio yn y dyfodol. Ceir disgrifiad o'r rhain yn Atodiad 2.

**Ystyriaethau**

6. Trafodwyd yr holl opsiynau yn drylwyr ac ystyriwyd manteision ac anfanteision pob un ohonynt. Daeth y grwp i'r casgliad mai opsiwn 3 oedd yr opsiwn mwyaf ymarferol ac y dylai'r Cynulliad gynyddu'r ariannu craidd a ddarperir i Gofal a Thrwsio Cymru i lefel oedd yn cynnig diogelwch a chysur.

7. Cyhoeddodd y Gweinidog y trefniadau i gynyddu'r arian a ddarperir yn y datganiad cyllid ym

mis Tachwedd 2001.

**Y Prif Argymhellion**

8. Bod yr arian ar gyfer gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn cynyddu i £3.2 miliwn yn 2003-04 a £3.4 miliwn yn 2004-05. Darperir £1.33 miliwn ar hyn o bryd yn codi i £1.36 miliwn yn 2002-03.

**Yr Angen Parhaus am Bartneriaeth a Ffynonellau Ariannu Eraill**

9. Roedd y gweithgor yn awyddus i weld yr arian a ddarperir i Gofal a Thrwsio gan eu partneriaid Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol (RSL) presennol ac awdurdodau lleol yn parhau pe byddai'r arian craidd gan y Cynulliad yn cynyddu'n sylweddol, naill ai trwy fewnbwn ariannol uniongyrchol neu trwy gostau priodoli (e.e. llety am ddim, benthyca cefnogaeth dechnegol ac ati). Ni ddylid ystyried y cynnydd mewn arian fel cyfle i ddileu'r gefnogaeth i Gofal a Thrwsio gan eu partneriaid. O drafodaethau gyda RSL (yn rhinwedd eu swyddogaeth fel rheolwyr asiantaethau Gofal a Thrwsio) ac awdurdodau lleol ni ymddengys bod hyn yn fygythiad. Yn wir mae'r rhan fwyaf o RSLs ac awdurdodau lleol wedi mynegi'n anffurfiol eu dymuniad i barhau â'u cefnogaeth.

10. Bydd swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Gofal a Thrwsio Cymru yn y 15 mis nesaf i sicrhau bod y trefniadau gweinyddol sy'n arwain at ddechrau cynnydd mewn arian yn bendant. Llunnir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd. Cynhelir adolygiad hefyd o'r dulliau monitro ariannol presennol er mwyn cael mwy o degwch wrth ariannu asiantaethau unigol.

**Cydymffurfio**

11. Mae pwerau y Cynulliad Cenedlaethol i roi cefnogaeth ariannol i Gofal a Thrwsio i'w cael dan adrannau 169 (6) a (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Cafodd y pwerau hyn eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i staff y Cynulliad. Nid oes materion o reoleidd-dra na phriodoldeb ynghlwm â'r mater hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Rhoddir cefnogaeth ariannol i asiantaethau Gofal a Thrwsio yn ogystal â Gofal a Thrwsio Cymru, dan linell gwariant cyllideb (BEL) Asiantaethau Gwella Tai, rhan o'r is-grwp gwariant (SEG) Refeniw Tai Arall. Bydd y gefnogaeth yn y flwyddyn ariannol 2002-03 yn £1.36 miliwn. Cafodd yr argymhellion newydd i gynyddu'r ddarpariaeth ariannol ei gadarnhau gan y Cynulliad ym mis Tachwedd 2001.

**Themâu Traws-bynciol**

13. Bydd argymhellion y Cynulliad am gynnydd yn y ddarpariaeth ariannol i Wasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn pwysleisio’r pwysigrwydd a roddir i lety iachach a mwy diogel i bobl oedrannus ac anabl a bydd yn cyfrannu at flaenoriaeth y Cynulliad, yn ‘Gwell Iechyd Gwell Cymru", ‘Cynllun i Gymru 2001’ i wella ansawdd bywyd, yn ogystal â Strategaeth Dai Genedlaethol y Cynulliad "Cartrefi Gwell i Bobl yng Nghymru". Mae gwaith Gofal a Thrwsio hefyd yn annibynnol ar Gyfarwyddiaeth Dai ac Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol y Cynulliad.

**Gweithredu gan y Pwyllgor Pwnc**

14. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r cynnydd yn y ddarpariaeth ariannol i wasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru ac i drafod y trefniadau newydd.

**Ionawr 2002**

**Cangen Adnewyddu’r Sector Preifat**

**Y Gyfarwyddiaeth Dai**